

**Cyfarfod Partneriaeth  
Twf Canolbarth Cymru  
Y Siambr, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys  
10.30 a.m. Dydd Gwener, 28 Gorffennaf 2017  
10:30am- 01:12p.m.**

**Yn bresennol**

- Cynghorydd **Ellen ap Gwynn**, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (Cadeirydd)
- Cynghorydd **Rosemarie Harries**, Arweinydd Cyngor Sir Powys (Is-Gadeirydd)
- **Ann Elias**, Cyngor Sir Ceredigion
- **Ann Watkin**, Llywodraeth Cymru
- **Bronwen Morgan**, Prif Weithredwr – Cyngor Sir Ceredigion
- **Carole Weller**, Llywodraeth Cymru
- **Ceri Stephens**, MWMG
- **Chris Rowland**, MDS Transmodal
- **Claire Miles**, Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru
- Cyng. **Alun Williams**, Cyngor Sir Ceredigion
- Cyng. **Gareth Lloyd**, Cyngor Sir Ceredigion
- Cyng. **Liam Fitzpatrick**, Cyngor Sir Powys
- Cyng. **Myfanwy Alexander**, Cyngor Sir Powys
- **Jane Lewis**, RLSP
- **John Jones**, Llywodraeth Cymru
- **Matthew Williams**, FSB
- **Mike Shaw**, Cyngor Sir Ceredigion
- **Paul Griffiths**, Cyngor Sir Powys
- **Rhian Williams**, Cyngor Sir Gwynedd
- **Rhodri Llwyd Morgan**, Prifysgol Aberystwyth
- **Rob Halford**, Llywodraeth Cymru
- **Russell Hughes-Pickering**, Cyngor Sir Ceredigion
- **Sandra Isaac**, Coleg Ceredigion
- **Susan Bolter**, Cyngor Sir Powys
- **Val Hawkins**, Twristiaeth Canolbarth Cymru
- **Vivienne Lewis**, Llywodraeth Cymru

**Yn bresennol hefyd**

- **Felicity Llewellyn** – Cyngor Sir Powys

<b>1.</b>	<b>Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b>	
-----------	---------------------------------------	--

	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ <b>Matthew Brown</b>, CGGC</li> <li>■ <b>Doug Hughes</b>, Penseiri Doug Hughes</li> <li>■ <b>Jenni Thomas</b>, Cyngor Sir Powys</li> <li>■ <b>Joshua Miles</b>, FSB</li> <li>■ <b>Mared Jones</b>, FUW</li> <li>■ <b>Terri Thomas</b>, Llywodraeth Cymru</li> </ul> <p>Cafwyd llythyr ar 27 Gorffennaf 2017 gan Gyngor Sir Gwynedd, yn derbyn y gwahoddiad i ymuno â'r Bartneriaeth. Bydd Cynghorydd Dafydd Meurig [Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd] a Chynghorydd Ioan Thomas [Aelod Cabinet dros yr Economi] yn cynrychioli Cyngor Gwynedd yng nghyfarfodydd Partneriaeth Twf Canolbarth Cymru yn y dyfodol.</p> <p>Croesawyd cynrychiolwyr o FSB a Thwristiaeth Canolbarth Cymru i'w cyfarfod cyntaf.</p>	
<p><b>2.</b></p>	<p><b>Cadarnhau'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer blwyddyn 2017 – 2018</b></p>	
	<p>Etholwyd Cynghorydd Ellen ap Gwyn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, yn Gadeirydd ar gyfer 2017/18 yn ystod y cyfarfod blaenorol.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i Barry Thomas am ei fewnbwn i Dwf Canolbarth Cymru yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd yn 2016/17.</p> <p>Etholwyd Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys, yn Is-Gadeirydd ar gyfer 2017/18.</p>	
<p><b>3.</b></p>	<p><b>Cofnodion a'r camau gweithredu o gyfarfod diwethaf Partneriaeth TCC ar 24 Mawrth 2017</b></p>	
	<p>Awdurdodwyd y Cadeirydd i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2017 ar ran y Bartneriaeth.</p> <p><b>Materion yn Codi:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>(Eitem 5) Bydd JJ a CM yn cael trafodaeth bellach am argaeledd posibl y Rhaglen Sgiliau Hyblyg yng Nghanolbarth Cymru.</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Mae MS wedi cael trafodaethau dilynol gyda John Jones; caiff hyn ei gyfleu i'r</li> </ul> </li> </ul>	

	<p>Gweithgor Traws-Sector gyda'r nod o ddatblygu pecyn penodol ar gyfer y Rhanbarth.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>(Eitem 6) Yr Ysgrifenyddiaeth i ail-drefnu'r cam o ddsbarthu dogfennau RLSP er mwyn gallu cyflwyno sylwadau i RLSP erbyn 20 Gorffennaf.</b></li> </ul> <p>o Mae hon yn eitem ar yr agenda; mae'r eitemau ar yr agenda wedi cael eu cwblhau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>(Eitem 7) Gwahodd Cadeirydd Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru i gyfarfodydd y Bartneriaeth yn y dyfodol. (Gweinyddol).</b></li> </ul> <p>o Cynhelir trafodaethau gyda Chroeso Cymru. Rhoddir sylw i'r mater sy'n codi dan eitem 7 hefyd.</p>	
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Cael Cyflwyniadau</b></p>	
<p><b>(a)</b></p>	<p><b>Strategaeth Cludo Nwyddau Canolbarth Cymru a'r Gororau (Cyflwyniad gan Chris Rowlands, MDS Transmodal)</b></p> <p>Croesawyd Chris Rowlands.</p> <p>Eglurwyd cysyniad y “Trên Archfarchnad” fel dull dosbarthu eilaidd, lle y caiff cynwysyddion eu cludo ar y rheilffordd ac yna, fe'u trosglwyddir i lorïau er mwyn cyflenwi archfarchnadoedd; mae hwn yn ddull gweithredol yn yr Alban ar hyn o bryd.</p> <p><b>Mae'r strategaeth yn cynnwys dwy ardal lywodraethu wahanol (Cymru a Lloegr); sut y defnyddir hyn er mwyn cyfrannu at ddogfennau eraill nad ydynt yn rhai trawsffiniol?</b> Ceir nifer o gysylltiadau y bydd angen eu hystyried ymhellach yn y strategaeth.</p> <p><b>Mae'r Gororau yn ardal lle y tyfir cynydau. A fyddai modd pennu ffigur o ran nifer y cerbydau sy'n cael eu rhwystro gan gerbydau fferm ar y fferdd?</b> Caiff gwybodaeth bellach ei sicrhau os oes modd.</p> <p>Trafodwyd y gallai ystyried gweithgarwch arbenigol Cludo Nwyddau yn yr Awyr fod o fudd o ganlyniad i feysydd awyr bach Shobdon, Y Trallwng, Aberporth a Llanfair.</p> <p>Yn Ne Powys, ceir rhwydwaith camlesi sy'n bodoli eisoes; defnyddir camlesi yn Lloegr at ddibenion gweithgarwch cludo nwyddau arbenigol, nad yw'n rhwym i gyfyngiadau amser.</p>	

**A fyddai modd cyflwyno gweithgarwch cludo nwyddau ar y rheilffyrdd yng Nghanolbarth Cymru er mwyn ei ddatblygu allan i weddill y rhanbarth a Chymru?** Byddai o fudd ei ystyried ymhellach. Efallai na fyddai'n gost-effeithiol o ganlyniad i gapasiti lled cledrau sengl a'r gât lwytho gymharol wael.

**Mae'r cyswllt gyda chronfa ddata yr Arolwg Ordnans yn bwysig iawn;** byddai modd ystyried cynnwys gwybodaeth er mwyn helpu i leihau'r difrod i bontydd ac ati trwy gamgyfeirio traffig cludo nwyddau.

**Gallai lleoedd pasio ychwanegol fod yn ffordd gost-effeithiol o symud nwyddau yn gyflymach; a oes unrhyw ffordd o gostio'r effaith fesul lle parcio fesul ffordd?** Ceir awgrymiadau y dylid cael mynediad rheolaidd i ddarnau 'deuol' o ffyrdd mewn lleoliadau priodol er mwyn caniatáu i gerbydau fynd heibio cerbydau amaethyddol.

**Cyfathrebu; a fyddai modd defnyddio hysbysiadau ffordd cwrteisi er mwyn codi ymwybyddiaeth o ystyried defnyddwyr eraill y ffyrdd?** Ceir cryn dipyn o gyfle ond yn y pen draw, ceir cosb ar gyfer cerbydau amaethyddol nad ydynt yn tynnu i mewn.

Dylai lleihau effaith traffig amaethyddol ar breswylwyr gymaint ag y bo modd gynnwys rhoi ystyriaeth lawn i ffyrdd osgoi ar gyfer pentrefi a chymunedau.

A fyddai modd sicrhau cyswllt diogel rhwng y Drenewydd ac Aberystwyth, oherwydd y cyfeiriwyd ati fel y ffordd fwyaf peryglus yng Nghymru? Byddai modd gwella'r cysylltiadau rhwng y Drenewydd – Y Trallwng – Yr Amwythig.

Diolchodd MS i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth ar gyfer y Bartneriaeth ac am yr holl waith a wnaethpwyd. Bydd y gwaith o adrodd i elfen LEP y Gororau y strategaeth yn cychwyn ddechrau fis Medi; bydd angen ystyried trefniadau ar y cyd ynghylch cyhoeddusrwydd.

#### **Cymeradwywyd yr argymhellion:**

i. Ystyried yr adroddiad a'r camau gweithredu a argymhellir ganddo, ac yn unol â sylwadau a thrafodaeth, **cytuno derbyn** yr adroddiad, **a**;

ii. **Chytuno anfon** adroddiad y Strategaeth Cludo Nwyddau [a'r atodiadau technegol] ymlaen at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, er mwyn iddo ei ystyried.

<p>(b)</p>	<p><b>Rhaglen Buddsoddi mewn Adfywio a Dargedir (TRIP) LIC (sy'n olynu Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid) (Cyflwyniad gan Carole Weller).</b></p> <p>Croesawyd Carole Weller.</p> <p>Nid yw'r Gweinidog wedi cymeradwyo'r Rhaglen £100 miliwn newydd eto, sy'n cynnwys dyraniad tybiannol wedi'i glustnodi o £7m ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru. Darparwyd copïau caled drafft o'r canllawiau.</p> <p>Bydd dyraniadau cyllid cyfalaf tybiannol ar gael dan drefniant treigl dros gyfnod o dair blynedd yn hytrach nag fel un cyfandaliad, a bydd angen iddynt gyd-fynd â ffynonellau refeniw eraill. Bydd hwn yn gyfle parhaus er mwyn hyrwyddo mentrau mwy dros y tymor hwy, gan gynnwys cydweithio ac integreiddio gwasanaethau cymunedol.</p> <p>Dylai cynlluniau rhanbarthol cadarn ar gyfer gweithgarwch adfywio adlewyrchu ac atgyfnerthu gweledigaeth ehangach pob awdurdod ar gyfer y rhanbarth, gan ychwanegu gwerth i ymyriadau sy'n bodoli eisoes ac ymyriadau a gynlluniwyd, a bydd angen iddynt hyrwyddo nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Mae VL ar gael i gynorthwyo Awdurdodau Lleol gyda'u cynlluniau, os byddant yn dymuno cysylltu â hi.</p> <p>Amlygwyd problemau tlodi gwledig gan CMA, a'r anhawster y mae rhai cymunedau'n eu cael wrth fanteisio ar gyfleoedd. Adleisiwyd sylwadau CMA gan CM, a nododd bod yn rhaid bod cynlluniau strategol yn cyd-fynd â'r buddsoddiadau.</p> <p>Ategwyd y pryder gan CGL y gallai'r cyfleoedd fod yn canolbwyntio ar ardaloedd trefol. Ymatebodd CW yr anogir Awdurdodau Lleol (ALI) i gynnig cyfleoedd gwledig neu drefol a fydd yn gynhwysol ac yn briodol i ardaloedd penodol. Mae'r ALI yn gyfrifol am benderfynu ar y ffocws.</p> <p>Cadarnhawyd bod pedwar rhanbarth: y rhanbarthau Dinesig yn Abertawe a Chaerdydd, ardal Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Phartneriaeth Twf Canolbarth Cymru.</p> <p>Diolchodd CM i CW am y cyflwyniad.</p> <p><b>GWEITHREDU: Bydd swyddogion sy'n cynorthwyo TCC yn arwain ar ac yn cydlynu ymateb rhanbarthol cyfunol i'r canllawiau drafft, a bydd yn adrodd am y cynnydd a'r datblygiadau ynghylch TRIP i'r Bartneriaeth</b></p>
------------	---

5.	<p><b>Ystyried ymateb TCC i “Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol, De Orllewin a Chanolbarth Cymru” Drafft y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin a Chanolbarth Cymru</b></p>	
	<p>Dosbarthwyd yr ymateb drafft ar 17 Gorffennaf 2017. Dosbarthwyd fersiwn terfynol cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol RLSP, yr ymateb drafft a'r daenlen atodol ar 26 Gorffennaf 2017.</p> <p>Trafodwyd y gellir gwahodd Swyddogion i gyfarfod gyda'r Bartneriaeth er mwyn trafod ymhellach sut y bodlonir anghenion Rhanbarth Canolbarth Cymru.</p> <p>Nododd SI mai nod y trefniadau rhwng Coleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr yw cynyddu'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer 2018/19.</p> <p>Roedd CMA wedi mynychu cyfarfod ynghylch addysg galwedigaethol yn Sioe Frenhinol Cymru, gan bwysleisio'r angen i gynyddu'r cyfle yng Nghanolbarth Cymru i'r sefydliadau addysgol, gan bod myfyrwyr yn manteisio ar y ddarpariaeth 'dros y ffin'. Er bod Llywodraeth Cymru yn pwysleisio y dylai addysg Gymraeg fod ar gael i bob dysgwr, nid yw ar gael mewn ffordd hwylus yng Nghanolbarth Cymru.</p> <p>Nododd JJ bod hyfywedd Addysg Bellach yng Nghanolbarth Cymru yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan y model cyllido cyfredol, gan nad yw'n adlewyrchu'r anhawster o gynnal darpariaeth mewn ardal wledig.</p> <p>Amlygodd JL, er bod mwy o wybodaeth yn y cynllun, nid oes llawer o'r wybodaeth gyflenwi a ddarparwyd gan LIC wedi cael ei rhannu i lefel is-ranbarthol. Codwyd y mater hwn a rhoddir sylw i'r gwaith o gasglu a chyflwyno data ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol, fel bod modd i gynlluniau yn y dyfodol amlygu beth yw'r ddarpariaeth a gyflwynir yng Nghanolbarth Cymru. Nododd CEaG bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar Addysg Bellach (AB); mae gwahanol ffyrdd o ddarparu cymwysterau, gan gynnwys rhai galwedigaethol.</p> <p>Nododd RLM bod cyfle i gryfhau'r cyswllt rhwng darparwyr sgiliau galwedigaethol ac AB, gan ddatblygu'r cyllid a chynladwyedd y ddarpariaeth.</p> <p>Amlygodd MB y ffaith bod cyfran sylweddol o weithgarwch hunangyflogaeth yn y rhanbarth; ar hyn o bryd, efallai ei bod yn ymddangos bod y ddogfen yn canolbwyntio ar bobl iau, ond mae gweithlu Canolbarth Cymru yn hŷn na'r gweithlu yng ngweddill Cymru ar y cyfan. Wrth orffen, nododd CM yr angen i feddwl mewn ffordd strategol ac i ystyried y tymor hir.</p>	

	<p><b>Cymeradwywyd yr argymhellion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i. Croesawu trefniadau gan RLSP i gydweithio'n agosach gyda busnesau ar draws rhanbarth Canolbarth Cymru.</li> <li>ii. Croesawu trefniadau a llongyfarch y staff ar yr ymdrechion i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yng Nghanolbarth Cymru, ac am neilltuo amser er mwyn bod ailadroddiad 2017 y cynllun yn cael ei ystyried yn gywir yn y rhanbarth.</li> <li>iii. Mynegi siom ynghylch y ffaith na all TCC ystyried y cynllun yn gywir ar sail ranbarthol o ganlyniad i'r diffyg data clir ynghylch y cyflenwad a'r galw ranbarthol, a gofyn i LIC ddarparu data a thystiolaeth ar sail is-ranbarthol er mwyn caniatáu gweithgarwch cynllunio sgiliau a darpariaeth yn unol â threfniadau ranbarthol sy'n dod i'r amlwg.</li> <li>iv. Mynegi siom mai dim ond un grŵp clwstwr a gefnogwyd yng Nghanolbarth Cymru, o'i gymharu â saith yn y De Orllewin. Felly, rhaid i ni gwestiynu natur gynrychioliadol sylwadau sy'n deillio o grŵp clwstwr Canolbarth Cymru.</li> <li>v. Nodi cais TCC bod dyraniadau penodol ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol, y nodir manylion y rhai lleiaf yn yr adroddiad hwn, yn cael eu gwneud ar gyfer Canolbarth Cymru yn y Templed Cynllunio Cyflogaeth a Sgiliau. Ni all TCC gefnogi cynigion pan nad yw hi'n glir pa ddarpariaeth a ddarparir yn rhanbarth Canolbarth Cymru yn benodol.</li> <li>vi. Nodi pryder cynyddol TCC na all y system, y mae'r cynllun hwn yn rhan ohoni, fodloni anghenion y rhanbarth. Felly, mae Canolbarth Cymru yn dechrau canlyn gwaith er mwyn sicrhau hyfforddiant galwedigaethol a fydd yn bodloni anghenion busnesau gwasgaredig, gan sicrhau mynediad i hyfforddiant ar yr amser cywir, yn y man cywir. Barnwn bod y rhanbarth dan anfantais oherwydd methiant y system ffurfiol i ystyried gweithgarwch manteisio ar gyfleoedd.</li> </ul>	
6.	<p><b>Diweddariad am weithgarwch Ymgysylltu Rhanbarthol</b></p>	
	<p><b>Cyfarfodydd a Fynychwyd:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd swyddogion wedi mynychu Digwyddiad blynyddol WEFO, Horizon 2020 ar 30 Mawrth</li> <li>• Ar 6 Ebrill, roedd swyddogion wedi mynychu cyfarfod rhwng cwmnïau ar draws y rhanbarth, a hwyluswyd gan LIC er mwyn trafod a hyrwyddo'r</li> </ul>	

Strategaeth Cludo Nwyddau a gynhelir ar gyfer Partneriaeth TCC ac LEP y Gororau.

- Ar 24 Mai, roedd swyddogion wedi mynychu a chymryd rhan yng Ngweithdy Pontio UE Rhwydwaith Gwledig Cymru, a gynhaliwyd yn Llanfair-ym-Muallt.
- 24 Mai, Cyflwynwyd Papur Cynhadledd "Datblygu Bioeconomi Gynaliadwy i Gymru: Map Ffyrdd ar gyfer y dyfodol" ynghylch 'Herio Canlyniadau er mwyn codi Gwerth Cyllid Cyhoeddus' gan swyddogion.
- Ar 16 Mehefin, bu swyddogion yn rhoi cyflwyniad ym Mhwyllgor Monitro Rhaglen Cymru Gyfan ynghylch Partneriaeth TCC a gwaith Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru.
- Ar 19 Mehefin, cyfarfu swyddogion gyda WSP er mwyn trafod cyfleoedd sbectwm radio.
- Ar 22 Mehefin, bu swyddogion yn cadeirio ac yn hwyluso cyfarfod rhwng swyddogion Trafnidiaeth LIC a swyddog awdurdod lleol o'r rhanbarth.
- Bu swyddogion yn cymryd rhan mewn fforwm ynghylch polisi rhanbarthol yn y dyfodol, a gynhaliwyd gan CLILC ar y cyd â Sefydliad Bevan ar 22 Mehefin
- Ar 27 Mehefin, mynychodd swyddogion ddigwyddiad Ardal Rhaglen y Gogledd Orllewin a hwyluswyd gan DCLG yng Nghaerdydd
- Ar 28 Mehefin, mynychodd swyddogion ddigwyddiad lansio Creu Sbarc yn Arena Motorpoint, Caerdydd.
- Ar 5 Gorffennaf, roedd swyddog wedi mynychu cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Cynulliad Cenedlaethol gyda'r Cadeirydd a chynrychiolwyr Cyngor Powys.
- Ar 5 Gorffennaf, roedd swyddogion wedi mynychu seminar a gynhaliwyd gan Sefydliad Bevan, o'r enw 'Sicrhau bod Bargeinion Dinesig yn Gynhwysol'.

**Gwnaethpwyd yr argymhellion canlynol a chytunwyd arnynt, fel y nodir yn y ddogfen gysylltiedig dan eitem 6 ar yr agenda.**

**A. Prifysgol Bangor; Gweithrediad WWV, Sefydliad Biotechnoleg Amgylcheddol**

Gofyn i WEFO, wrth iddo ystyried y cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn:

- i. I ystyried y dyblygu a'r dyblygu posibl a ddisgrifiwyd uchod, a'i effaith ar ranbarth Canolbarth Cymru yn arbennig, **a**;
- ii. Nodi bod gweledigaeth y fframwaith ar gyfer rhanbarth Twf Canolbarth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r cyfleoedd er mwyn cynyddu capasiti



ymchwil ac arloesi ym maes biotechnoleg yn y rhanbarth fel un o'r cyfleoedd allweddol ar gyfer twf a swyddi yn y rhanbarth yn y dyfodol, gan ddatblygu cydnabyddiaeth BBSRC o IBERS fel yr unig sefydliad yng ngorllewin Prydain. Ceir effaith economaidd bosibl eang sy'n deillio o'r technolegau hyn a chyfraniad y gwaith ymchwil ym maes bio-economi, sy'n flaenllaw ar lefel Fyd-eang, yn ein rhanbarth ni yng nghanolbarth Cymru. Nodwyd y sail ymchwil ym maes bio-technoleg a rhoddyd blaenoriaeth iddo fel ysgogydd yr economi ranbarthol yma yng nghanolbarth Cymru, ac;

- iii. Wrth roi sylw i'r rhain, ceisio gwneud defnydd gwell o asedau a gallu presennol rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd trwy ddatblygu elfen gydweithredol o fewn y cynllun busnes, **ac;**
- iv. Ystyried statws y sector bio-technoleg sy'n tyfu ar draws Cymru a'r cyfleoedd sy'n codi i ddatblygu hwn ac wrth sicrhau mwy o gyllid ar ffurf grantiau SAU i ranbarth GCC, **ac;**
- v. Yn ychwanegol i hyn, ystyried datblygu'r cyfleoedd pellach a nodwyd er mwyn datblygu'r gweithrediad arfaethedig ac ychwanegu i statws Cymru a GCC fel canolfan ar gyfer arloesi ym maes bio-technoleg trwy wneud defnydd ar y cyd o asedau sy'n bodoli eisoes a ariannwyd gan gyllid domestig trwy ddarparu cyllid ychwanegol i IBERS ddatblygu meysydd eraill gan gynnwys mynegiant ensymau, eplesu a dylunio ensymau cyfrifiadol, a fyddai'n ychwanegu at effaith y gweithrediad mewn ffordd sylweddol.

## **B. Prifysgol Aberystwyth; Gweithrediad WWV; Bwydydd y Dyfodol**

Gofyn i Brifysgol Aberystwyth wrth iddi ddatblygu'r cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;

- i. I archwilio cysylltiadau posibl a chan gyd-fynd â gweithrediad Helix a ariannir gan EAFRD, a arweinir gan Gyngor Sir Ceredigion fel rhan o Ganolfan Bwyd Cymru, fel bod ymchwil ynghylch cynhyrchu bwyd byd-eang, tueddiadau a gwastraff yn cyd-fynd â'r cymorth a ddarparir trwy Helix, gan helpu cynhyrchwyr bwyd bach i ganolig eu maint ar draws Cymru i gynyddu cynhyrchiant, ymateb i anghenion y farchnad a lleihau gwastraff.
- ii. I ddangos sut y teimlir effaith bosibl y gweithrediad dros ardal y rhaglen gyfan a thu hwnt, ac nid sut y'i teimlir yn ardal uniongyrchol y gweithrediad
- iii. I egluro rôl BIC Innovation yn y prosiect ac a yw'n gyd-fuddiolwr.

**C. Prifysgol Abertawe; Gweithrediad EW; ASTUTE Dwyrain Cymru**

Gofyn i Brifysgol Abertawe wrth iddi ddatblygu'r cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;

- i. I gydweithio'n agos gyda staff y prosiect mewn sefydliadau partner, yn enwedig Prifysgol Aberystwyth, er mwyn sicrhau y manteisir yn llawn ar wybodaeth leol am fuddiolwyr busnes posibl er mwyn sicrhau effaith ar draws yr ardal weithredol arfaethedig gyfan, gan gynnwys y rhan honno o ranbarth Dwyrain Cymru sydd yng Nghanolbarth Cymru.
- ii. I holi WEFO wrth ystyried y cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn;
- iii. I nodi cefnogaeth gyffredinol Partneriaeth TCC ar gyfer y gweithrediad arfaethedig.

**D. Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Gweithrediad ar draws Cymru; Arloesedd Strategol Cymhwysol y Genhedlaeth Nesaf;**

Gofyn i Brifysgol Metropolitan Caerdydd wrth iddi ddatblygu'r cynllun busnes ar gyfer y gweithrediad arfaethedig hwn

- i. I ystyried cysylltiadau posibl a chyfatebolrwydd gyda'r gweithrediad a gymeradwywyd gan ERDF, CEMET, a arweinir gan Brifysgol De Cymru, er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posibl rhwng gweithgarwch
- ii. I gryfhau a nodi ymhellach pa weithgareddau diriaethol a gyflawnir fel rhan o'r gweithrediad arfaethedig, fel bod modd cynnal asesiadau pellach am yr effaith bosibl

Gofyn i WEFO wrth iddo ystyried y gweithrediad arfaethedig;

- iii. I ystyried yr argymhellion uchod wrth ddatblygu ac asesu'r gweithrediad arfaethedig

**E. Prifysgol Abertawe; Gweithrediad WWV; SMARTAQUA**

Gofyn i WEFO wrth iddo ystyried y gweithrediad arfaethedig;

- i. I ystyried y pryderon ynghylch cyweddu strategaethau a sicrhau effaith economaidd o fewn ardal y rhaglen wrth ddatblygu ac asesu'r gweithrediad arfaethedig

	<p><b>F. Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd – mewnbwn adnewyddu interim (Atodiad C)</b></p> <p>i. Nodi cyflwyno'r diwygiadau hyn i WEFO.</p> <p>Nododd MS bod prosiect llenwi bwlch Blaenoriaeth 4 posibl – canolfan peirianeg sbectwm radio genedlaethol mewn partneriaeth â'r sector preifat – wedi cael ei drafod yng ngweithgor traws-sector TCC, a'i fod wedi cael ei groesawu yn y lle cyntaf, gan aros am wybodaeth bellach.</p> <p><b>Cwestiynau</b> Ceir cyfleoedd i'r Aelodau Etholedig ymwneud â'r prosiectau hyn. Cadarnhaodd MS y dosbarthir agendau a phapurau i Bartneriaeth lawn TCC, a bod croeso i'r Aelodau ymuno â'r trafodaethau.</p>	
<p><b>7.</b></p>	<p><b>Diweddariad am Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru a chael cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2017</b></p>	
	<p>Ni fu modd i Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru roi diweddariad. Amlygodd CM y ffaith y bydd Croeso Cymru yn mynychu'r cyfarfod nesaf a darparir diweddariad llawn yn ystod y cyfarfod nesaf.</p> <p>Nododd RLM (ar ran y Cadeirydd Twristiaeth, Steve Hughson) y dymuniad i ffurfio cysylltiadau dyfnach gyda TCC gan bod y Sector Twristiaeth yn dymuno cefnogi'r Bartneriaeth.</p> <p>Cynigiodd BM a CEaG y dylai AW gysylltu â chynrychiolwyr twristiaeth er mwyn eu gwahodd i fynychu TCC.</p> <p><b>Gweithredu: Ann Watkin i gysylltu â chynrychiolwyr Twristiaeth.</b></p>	
<p><b>8.</b></p>	<p><b>Adroddiad Diweddarau gan Grŵp Cysylltedd a Seilwaith TCC</b></p>	
	<p>Mae 11 wythnos o oedi ar y rhaglen ar gyfer yr adolygiad o'r masnachfaint rheilffyrdd.</p> <p>Fore heddiw, cafwyd cadarnhad o £3.9 miliwn ar gyfer Gorsaf Bow Street. Mynegodd CAW ei longyfarchiadau.</p> <p>Gwahoddir ceisiadau am gronfa rhwydwaith bysiau (£15 miliwn dros bedair blynedd).</p>	

	<p><b>Cymeradwywyd yr argymhelliad:</b></p> <p>i. Nodi'r adroddiad.</p>	
<b>9.</b>	<p><b>Cymeradwyo ymateb TCC i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru "Mynediad i fand Eang y Genhedlaeth Nesaf"</b> (Penderfynwyd ymestyn y dyddiad cau bythefnos i 27 Gorffennaf 2017)</p>	
	<p>Cytunodd y Bartneriaeth gymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad, a ddisbarthwyd yn flaenorol, ac a anfonwyd ymlaen at LIC ar 27 Gorffennaf 2017.</p> <p>Cadarnhawyd y dylid adrodd i Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol am unrhyw gamgymeriadau a welir yn y data.</p> <p>Nododd MW bod yr ystadegau ynghylch darpariaeth band eang yn canolbwyntio ar y niferoedd sy'n manteisio ar wasanaethau, yn hytrach nac argaeledd y gwasanaeth band eang.</p> <p>Amlygodd CM y ffaith y gallai'r data fod hyd at saith mis y tu ôl i'r sefyllfa 'amser real'</p>	
<b>10.</b>	<p><b>Twf Canolbarth Cymru – Symud Ymlaen</b></p>	
	<p>Amlygodd CS, PG ac AW eu cefnogaeth i'r cam o nodi cyfleoedd, a diffinio'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer rhaglen o fuddsoddiadau rhanbarthol. Cytunwyd y bydd angen nodi manteision mwy diriaethol wrth symud ymlaen.</p> <p>Cytunwyd y bydd Cyngor Sir Powys yn arwain yr ymarfer ymgynghorol hwn.</p> <p>Gofynnodd JJ a fyddai modd i'r ymgynghorydd gynnwys eglurder ynghylch buddion diriaethol/gwerth ychwanegol cynigion; cadarnhaodd CM y byddai hyn yn digwydd ac y byddai'r ymgynghorwyr yn ystyried graddfa a chwmpas yr ymyriadau arfaethedig er mwyn sicrhau'r gwerth am arian gorau.</p> <p>Gofynnodd VL a fyddai modd cynnwys cyfleoedd pellach; cadarnhaodd CEaG y byddai croeso i'r Bartneriaeth gynnig mewnbwn pellach i'r cynigion.</p> <p><b>Cymeradwywyd yr argymhellion:</b></p> <p>i. Nodi'r cyflwyniadau a wnaethpwyd i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru</p> <p>ii. Cytunwyd ar y dasg ymgynghori arfaethedig amlinellol, a;</p>	

	iii. nodwyd a chytunwyd ar y dull gweithredu a amlinellwyd.	
<b>11.</b>	<b>Unrhyw Fater Arall</b>	
	Nid oedd unrhyw faterion yn codi.	
<b>12.</b>	<b>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</b>	
	<b>03 Tachwedd 2017 am 10.30am yn y Siambr, Swyddfeydd y Cyngor, Aberaeron.</b> (Sylwer y ffaith bod y dyddiad wedi newid.)	

**Leader of Ceredigion County Council, Councillor Ellen ap Gwynn, Chair**